

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 21 Mawrth 2022 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (13.00 – 13.30)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(13:30)

Dogfennau atodol:

2 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: Sesiwn dystiolaeth 5

(13.30–14.30)

(Tudalennau 1 – 36)

Jane Hutt, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Steve Chamberlain, Arweinydd Polisi Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi
Tanwydd

Mark Alexander, Pennaeth Datgarboneiddio, Arloesedd a Thlodi Tanwydd y
Sector Cyhoeddus

Dogfennau atodol:

Papur ymchwil

Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu – Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd
(Saesneg yn unig)

Papur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

(14:30)

Dogfennau atodol:



3.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio

(Tudalennau 37 – 55)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru

3.2 Gohebiaeth gan Gomisiwn y Senedd ar ddefnyddio'r term BAME

(Tudalennau 56 – 57)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Gomisiwn y Senedd – 15 Chwefror 2022

3.3 Gohebiaeth gan Teithio Ymlaen ynghylch gweithredu Deddf Tai (Cymru)

(Tudalennau 58 – 60)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Teithio Ymlaen at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai– 2 Mawrth 2022 (Saesneg yn unig)

3.4 Gohebiaeth gan y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi ynghylch y broses o orfodi dyledion

(Tudalen 61)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi ynghylch y broses o orfodi dyledion – 14 Mawrth (Saesneg yn unig)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(14:30)

Dogfennau atodol:

Egwyl (14:30–14:45)

- 5 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: Sesiwn friffio gydag Archwilio Cymru**
(14:45–15:10)
Mark Jeffs, Archwilio Cymru
Chris Pugh, Archwilio Cymru
Seth Newman, Archwilio Cymru
Dogfennau atodol:
- 6 Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd: Trafod y dystiolaeth**
(15:10 – 15:25)
Dogfennau atodol:
- 7 Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gynigion i ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998: trafod yr ohebiaeth ddrafft**
(15:25–15:30) (Tudalennau 62 – 63)
Dogfennau atodol:
Ymateb drafft i Lywodraeth y DU
- 8 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: gwaith craffu blynyddol – adroddiad drafft**
(15:30–16:10) (Tudalennau 64 – 142)
Dogfennau atodol:
Adroddiad drafft
Gohebiaeth at y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – 14 Chwefror 2022
Gohebiaeth gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – 1 Mawrth 2022
Gohebiaeth at Lywodraeth Cymru – 15 Chwefror 2022
Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru – 7 Mawrth 2022
- 9 Blaenraglen waith**
(16:10–16:30) (Tudalennau 143 – 148)
Blaenraglen waith

Diogelwch menywod a thrais ar sail rhywedd: cylch gorchwyl diwygiedig

Dogfennau atodol:

Blaenraglen waith

Diogelwch menywod a thrais ar sail rhywedd: cylch gorchwyl diwygiedig

10 Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: Adroddiad monitro

(16:30–16:35)

(Tudalennau 149 – 161)

Dogfennau atodol:

Nodyn: Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru
Adroddiad Monitro (Hydref – Rhagfyr 2021): Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i
Ddinasyddion yr UE yng Nghymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref MA/JH/00831/22

Jenny Rathbone AS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr ynghylch yr ymchwiliad i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd sy'n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn ôl eich cais, rwyf wedi cynnwys fy nhystiolaeth i'w hystyried gan y pwyllgor. Mae mynd i'r afael â thlodi yn fenter trawslywodraethol, ac rwy'n gweithio'n agos gyda Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, sy'n arwain ar gyflawni'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Ar 17 Chwefror, galwais ynghyd uwchgynhadledd ar gostau byw â rhanddeiliaid allweddol i archwilio'r ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru gefnogi aelwydydd drwy'r argyfwng presennol. Ymunodd fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet, Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynghyd â chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Clywsom yn uniongyrchol gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys National Energy Action, Sefydliad Bevan a Chyngor ar Bopeth am yr effaith y mae'r argyfwng costau byw hwn yn ei chael ar aelwydydd ledled Cymru. Byddaf yn parhau i weithio ar y cyd â'n partneriaid wrth inni lywio ein ffordd drwy'r argyfwng diweddaraf hwn.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i groesawu gwaith craffu'r pwyllgor ar adeg pan fo talwyr biliau'n wynebu cynnydd sylweddol yn eu biliau ynni domestig, sydd wedi'u sbarduno gan amrywiadau dramatig ym mhris cyfanwerthu byd-eang olew a nwy. Mae'r cynnydd yn y cap ar brisiau tariff ynni domestig diofyn ac amrywiol a gyhoeddwyd gan Ofgem ar 7 Chwefror yn ganlyniad uniongyrchol i ansefydlogrwydd parhaus y farchnad. Mae'r aelwydydd y nodwyd eu bod mewn perygl o dlodi tanwydd yn 2018 yn debygol o fod mewn tlodi tanwydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

heddiw, sy'n golygu bod mwy na chwarter holl aelwydydd Cymru yn ei chael hi'n anodd talu costau sylfaenol biliau gwresogi, bwyd a thai.

Mae'n destun gofid a siom imi nodi'r camau cyfyngedig y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i helpu'r rheini ar aelwydydd incwm is a'r rheini sy'n agored i niwed o'r argyfwng costau byw hwn. Mae'r cyhoeddiad a wnaed gan Ganghellor y Trysorlys yn Senedd y DU ar 3 Chwefror yn methu'r nod o ran y cymorth sydd ei angen. Mae ad-daliad o £200 a dalwyd ym mis Hydref, chwe mis ar ôl i'r cynnydd mewn prisiau ddod i rym, yn ychwanegu costau pellach ar ffurf treth 'prynu nawr, talu nawr a thalu'n nes ymlaen'. Mae hon yn dreth atchweliadol ychwanegol ar yr aelwydydd hynny ar yr incwm lleiaf i'w thalu, ac mae'n achosi mwy o broblemau ar eu cyfer yn y dyfodol.

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddileu'r costau cymdeithasol ac amgylcheddol a ychwanegir at filiau ynni domestig. Dylid talu'r costau hyn o drethiant cyffredinol. Rydym hefyd wedi galw am gynyddu'r taliadau sydd ar gael drwy Gynllun Gostyngiadau'r Rhaglen Cartrefi Clyd ac i gynlluniau sy'n dileu dyledion ynni fod ar gael drwy gyflenwyr ynni i helpu talwyr biliau ymdopi â'r argyfwng presennol. Rydym hefyd wedi ymuno ag eraill sy'n galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno treth ffawdelw ar elw ychwanegol sylweddol y cwmnïau olew a nwy i helpu i dalu cost y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar aelwydydd sydd dan bwysau.

Er mai materion a neilltuir i Lywodraeth y DU yw'r rhain, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i gefnogi aelwydydd sydd fwyaf mewn perygl. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gronfa gymorth i aelwydydd werth £51m a gyhoeddais ym mis Tachwedd, a chafodd £38m ei ddyrannu i gefnogi cynllun cymorth tanwydd gaeaf. Roedd hwnnw'n taliad untro o £100 tuag at gost eu hanghenion ynni i aelwydydd o oedran gweithio a oedd yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Ar 1 Chwefror cyhoeddais fod y taliad hwnnw'n cael ei ddyblu i £200.

Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol becyn o fesurau gwerth £330m i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir ymestyn ein Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf i'w gynnal eto'r gaeaf nesaf, gan gyrraedd hyd yn oed mwy o aelwydydd. Mae'r pecyn o fesurau hefyd yn cynnwys taliad costau byw o £150 i'w ddarparu i bob aelwyd sy'n byw mewn eiddo ym mandiau'r dreth gyngor A i D. Bydd y taliad hwnnw hefyd yn cyrraedd aelwydydd sy'n cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mhob band treth gyngor. Yn absenoldeb camau digonol gan Lywodraeth y DU, bydd hyn yn helpu aelwydydd i dalu costau byw ac ymdopi â'r argyfwng ynni sydd ar ein gwarthaf.

Yn y tymor hwy, bydd y Pwyllgor yn gwybod ein bod hefyd yn ymgynghori ar ddyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd. Ein nod yw cydbwyso dau amcan cyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol, gan ddysgu gwersi o'r gorffennol i roi cymorth i'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd.


Er gwaethaf ein hymdrechion, mae heriau sylweddol o'n blaenau yn 2022. Mae colli'r cynnydd o £20 a roddwyd dros dro i'r Credyd Cynhwysol, y cynnydd mewn trethi sy'n dod i rym ym mis Ebrill, ynghyd ag ansefydlogrwydd parhaus o ran costau ynni, yn golygu bod aelwydydd ledled y DU yn debygol o ddiodef. Yn sgil hynny, bydd angen iddynt wneud dewisiadau anodd fwyfwy ynghylch sut i wario eu harian cyfyngedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gymryd camau i ddiogelu aelwydydd rhag y tlodi truenus y bydd llawer yn ei ddiodef. Clywais yn uniongyrchol gan ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen yn ystod cyfarfod bord gron a gynhaliwyd ar 17 Chwefror am drafferthion enbyd y rhai sy'n delio â'r argyfwng costau byw hwn. Mae'n

bwysig i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'n partneriaid, gan helpu teuluoedd a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy'r cyfnod anodd hwn.

Edrychaf ymlaen at y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliad y Pwyllgor i helpu i nodi camau pellach y gallwn eu cymryd i gefnogi aelwydydd drwy'r cyfnod anodd hwn.

Yr eiddoch,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

TYSTIOLAETH LLYWODRAETH CYMRU I'R PWYLLGOR CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER CYMDEITHASOL YNGHYLCH TLODI TANWYDD A'R RHAGLEN CARTREFI CLYD

Cyflwyniad

Mae [Amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019](#) yn awgrymu bod 155,000 o aelwydydd, tua 12% o'r holl aelwydydd, yn byw mewn cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd. Comisiynwyd amcangyfrifon newydd o dlodi tanwydd gan Lywodraeth Cymru a chânt eu cyhoeddi ym mis Mai 2022.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun [Trechu tlodi tanwydd](#) ym mis Mawrth 2021. Mae'r cynllun yn cynnwys y cyfnod hyd at 2035 ar lefel uchel, gan gynnwys ein huchelgeisiau a'n targedau, ond mae'n canolbwyntio ar ddeg cam gweithredu tymor byr i'w cyflawni dros y ddwy flynedd nesaf. O ystyried cyflymder y newid yn y sector hwn, caiff y ddarpariaeth ei monitro ac mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru adolygu a diweddarau ein cynllun gweithredu i sicrhau bod gweithgareddau'n parhau i roi sylw i gyflawni ein targedau erbyn 2035.

Er cydnabod na all Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar holl benderfynyddion ehangach tlodi tanwydd, mae ein cynllun yn cynnwys targedau ystyrlon ac ymestynnol. Mae'r rhain yn ystyried gwersi o'r gorffennol a'r sylwadau a gyflwynwyd i ni yn ystod [yr ymgynghoriad cyhoeddus](#), a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Erbyn 2035, ein nod yw'r canlynol:

- Amcangyfrifir na fydd unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol;
- Amcangyfrifir na fydd mwy na 5% o gartrefi yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw adeg cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol;
- Bydd nifer yr holl aelwydydd sydd "mewn perygl" o syrthio i dlodi tanwydd wedi mwy na haneru, yn seiliedig ar amcangyfrifon 2018.

Disgrifir y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn y cynllun yn fanwl. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi gwaith y Pwyllgor, hoffwn dynnu sylw at rai ohonynt yma:

- Mae'r buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi parhau, ac wedi cyfrannu at haneru lefelau amcangyfrifon o dlodi tanwydd yng Nghymru rhwng 2008 a 2018. Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd buddsoddiad o fwy na £397m¹ a gyflwynwyd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd (Nyth ac Arbed) wedi gwella effeithlonrwydd ynni mwy na 67,100 o gartrefi yng Nghymru. Mae dros 160,000 o bobl wedi cael cyngor ar effeithlonrwydd ynni drwy'r Rhaglen ers 2011. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, drwy wella eu gallu i wrthsefyll iechyd gwael y gellir ei osgoi ac atal marwolaethau cynnar. Mae creu cartref cyfforddus hefyd yn helpu ein plant i ddechrau eu bywyd yn y ffordd orau posibl ac i wireddu eu potensial llawn.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddechreuodd ar 22 Rhagfyr. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio dysgu gwersi o'r gorffennol a chydbwyso'r ddau nod mewn perthynas â'r hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol.

¹ Cyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Eiddoedd Cyhoeddus, 2021. Tudalen y pecyn 30

- Cyhoeddwyd y cynllun ymdopi â thywydd oer ar 3 Rhagfyr. Mae hwn yn nodi cyfres o gamau yr ydym yn eu cymryd i annog a chefnogi aelwydydd incwm is i sicrhau bod eu cartrefi'n ymdopi'n well â thywydd oer.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd. Drwy'r fforwm gwerthfawr hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydlynu ymateb Cymru i ymgynoriadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Cynllun Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni a Chynllun Gostyngiadau'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Yn ogystal â gwaith ein Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd, byddaf yn parhau i weithio gyda sefydliadau a gafodd eu cynrychioli yn yr uwchgynhadledd ar gostau byw a gynhaliats ar 17 Chwefror. Yr oedd yr uwchgynhadledd yn dangos yn glir sut y mae Gweinidogion yn gweithio ar draws y Llywodraeth i harneisio ein hymdrechion i drechu tlodi o bob math, ar y cyd â'r ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sydd wedi ymroi i'r dasg sydd o'n blaenau.

Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld prisiau ynni'n codi. Roedd tua 145,000, neu 11% o holl aelwydydd Cymru yn 2019 mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, gan wario rhwng 8% a 10% o incwm eu haelwydydd ar eu hanghenion ynni domestig. Mae'r cynnydd mewn biliau ynni ym mis Hydref 2021 a gyhoeddwyd gan Ofgem, ynghyd â'r cynnydd pellach a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, yn golygu bod y rhan fwyaf, os nad pob un o'r aelwydydd sydd mewn perygl o dlodi tanwydd yn 2018, bellach yn debygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae National Energy Action wedi cyngori y bydd y cynnydd yn y cap ar brisiau tariff diodyn ac amrywiol ar gyfer ynni domestig yn golygu y gallai mwy na 280,000 o aelwydydd yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd ym mis Ebrill. Mae hyn yn cynrychioli 100,000 o aelwydydd eraill ers mis Hydref 2021 a chynnydd o 80% o'i gymharu ag amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n cyfrannu at argyfwng costau byw megis tynnu'n ôl y codiad o £20 i'r credyd cynhwysol, cynyddu cyfraddau llog, a chynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol. Gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i'r perwyl gorau fel y disgrifir yn y llythyr eglurhaol i'r papur tystiolaeth hwn, byddwn yn parhau i lloïo Llywodraeth y DU i ysgwyddo'i chyfran deg o'r baich ac i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddileu'r costau cymdeithasol ac amgylcheddol a ychwanegir at filiau ynni domestig. Dylid talu'r costau hyn o drethiant cyffredinol. Rydym hefyd wedi galw am gynnydd yn y taliadau sydd ar gael drwy Gynllun Gostyngiadau'r rhaglen Cartrefi Clyd ac i gynlluniau dileu dyledion ynni fod ar gael drwy gyflenwyr ynni i ryddhau talwyr biliau o'r argyfwng uniongyrchol. Rydym wedi ymuno ag eraill sy'n galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno treth ffawdelw ar elw gormodol y cwmnïau olew a nwy i helpu i dalu cost y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar aelwydydd sydd dan bwysau.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gymryd camau pellach i ailystyried eu dull o ymdrin â'r Lwfans Tai Lleol. Roedd y cynnydd yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol i'r 30ain ganradd ar gyfer y rheini sy'n cael Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol ac sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat yn ymateb calonogol i argyfwng Covid-19. Fodd bynnag, cafodd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol eu rhewi yn 2021 ac mae'r cyhoeddiad na fydd y cyfraddau'n cael eu cynyddu tan o leiaf ddechrau blwyddyn ariannol 2023, heb unrhyw sicrwydd o gynnydd bryd hynny, yn siom. O ganlyniad, bydd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol sy'n cael eu talu hyd at 31 Mawrth 2023 yn adlewyrchu'r farchnad rentu ar gyfer y cyfnod Hydref 2018 – Medi 2019.

Hoffwn droi'n awr at y cwestiynau a nodir yn eich llythyr.

Y prif wersi a ddysgwyd o Raglen Cartrefi Clyd presennol Llywodraeth Cymru

Daeth Cynllun Arbed (sy'n seiliedig ar ardal) y Rhaglen Cartrefi Clyd i ben ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cynllun Nyth sy'n seiliedig ar alw yn parhau tan fis Ebrill 2023. Mae'r asesiad o'n rhaglen bresennol yn parhau a chaiff ei gyhoeddi, ac mae canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd.

Roeddwn yn falch o allu defnyddio'r canfyddiadau a'r argymhellion yn [Adroddiad y Rhaglen Cartrefi Clyd a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd](#), ynghyd â'r argymhellion a wnaed yn [adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion y Senedd ar tlodi tanwydd](#), sydd wedi helpu i lunio'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion yn y ddau adroddiad ac mae eisoes wedi gwneud newidiadau i'r cynlluniau presennol lle bo hynny'n briodol. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r [Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio](#) ochr yn ochr â'r [Ymgynghoriad ar y cynllun i drechu tlodi tanwydd yn 2020](#) hefyd wedi helpu i lunio'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwersi hynny:

- Mae tensiwn rhwng gwres fforddiadwy a glân, tra bo cadwyni cyflenwi a sgiliau yn dal i aeddfedu.
- Mae angen mynd i'r afael â'r gorddibyniaeth ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd fel mesur o incwm isel. Mae hyn o bosibl wedi eithrio pobl sy'n byw ar incwm is, nad ydynt yn cael budd-daliadau, sydd, serch hynny, yn cael anhawster i dalu costau eu hanghenion ynni cartref.
- Angen mwy o gamau i annog agweddau ac ymddygiad cadarnhaol at ddefnyddio ynni domestig, wedi'u hategu gan fwy o fuddsoddiad mewn technoleg glyfar a charbon isel i wresogi cartref er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref.
- Nid yw'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau o dan y rhaglen bresennol yn glir i lawer o ymgeiswyr, ac mae angen ei gwella yn y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Gellid gwella trefniadau i apelio yn dilyn yr asesiad o'r tŷ cyfan, neu pan fo gosod system wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys pan nad yw darparwr y cynllun wedi bodloni pryderon y person yn foddhaol.
- Rhaid ystyried a yw cynlluniau sy'n seiliedig ar ardal yn parhau i fod yn addas i'r diben wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

[Sut y gall y gwersi hyn helpu i lywio'r fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'n well y rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu mewn perygl o hynny?](#)

Cafodd [yr ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd](#) ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2021, ac mae'n cynnwys 19 o gwestiynau. Gan ddysgu llawer o wersi'r gorffennol, mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio i groesawu safbwyntiau a barn ynghylch diben fersiwn nesaf y rhaglen, y meini prawf cymhwystra i'w defnyddio, a'r mesurau effeithlonrwydd ynni cartref i'w darparu i aelwydydd drwy'r rhaglen. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori ac mewn partneriaeth â National Energy Action, cynhaliwyd tri gweithdy rhithwir a oedd yn cynnwys cyfranogiad gan randdeiliaid allweddol yng Nghymru. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 1 Ebrill 2022. Bydd y safbwyntiau ar y materion hyn yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, a ddisgwyllir ei gyflawni cyn toriad haf y Senedd.

Pa gymorth penodol y dylid ei ddarparu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd gwledig?

Mae [Ystadegau tlodi tanwydd a gyhoeddwyd yn 2019](#) yn amcangyfrif bod lefelau tlodi tanwydd yn uwch mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, gyda Gwynedd (23%) Ceredigion (21%), Ynys Môn (17%) a Phowys (17%) yn adrodd lefelau sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 12% o'r holl aelwydydd. Ystyrir bod ardal yn wledig os yw y tu allan i aneddiadau sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000. Mae tystiolaeth a gyhoeddwyd o [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#) yn amlygu bod cartrefi mewn ardaloedd gwledig yn tueddu if od yn llai effeithlon o ran ynni nag anheddau mewn ardaloedd trefol. Y rheswm tebygol am hynny yw bod anheddau mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn hŷn a cheir mwy o anheddau sengl mewn ardaloedd gwledig. Ceir hefyd llai o dai cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, a'r rheini yw'r mathau o anedd sy'n dueddol o fod yn fwyaf effeithlon o ran ynni.

Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â grid nwy'r prif gyflenwad, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig. Mae'r cyllid ar gyfer pob cartref wedi'i gyfyngu i £5,000 neu £8,000 yn dibynnu ar sgôr effeithlonrwydd ynni'r cartref pan fydd wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith nwy. Mae'r cyllid ar gyfer cartrefi oddi ar y grid nwy yn cynyddu i £8,000 neu £12,000.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y pwysau ychwanegol a brofir gan aelwydydd sy'n dibynnu ar nwy hylif ac olew gwresogi ar gyfer systemau gwresogi gofod a dŵr. Nid yw'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan Ofgem ac er bod y cap ar brisiau yn berthnasol i drydan a gyflenwir drwy'r grid cenedlaethol, nid yw cost olew a nwy hylif wedi'i chapio ac maent yn dueddol i newid yn ôl y tymor. Gall aelwydydd incwm is ei chael hi'n anodd cael gafael ar gyfrifon cyllidebu ac maent yn wynebu biliau mawr i brynu swmpgyflenwadau, neu mewn risg o ddioddef costau cynyddol pellach drwy gael nifer o gyflenwadau llai yn ystod y gaeaf.

Yn ogystal â darparu grantiau ar gyfer trwsio boeleri, estynnwyd y Gronfa Cymorth Dewisol i ddarparu cymorth tanwydd gaeaf i helpu aelwydydd i dalu costau olew a nwy hylif. Mae cymorth ychwanegol ar ffurf taliadau brys o hyd at £250 wedi bod ar gael i gleientiaid sydd oddi ar y grid ers 1 Hydref. Nid yw cleientiaid tanwydd nwy oddi ar y grid yn mwynhau'r un sicrwydd o ran cyflenwad, a gallai eu cyflenwad gael ei "atal" i bob pwrpas ac ni fyddent yn gallu gwresogi eu cartrefi os nad yw'r arian i dalu am gyflenwad ar gael iddynt. Rwyf wedi cytuno i ymestyn y cymorth hwn a fydd yn parhau tan 31 Mawrth 2023.

Bydd aelwydydd gwledig hefyd yn elwa o'r gronfa cymorth i aelwydydd a gyhoeddais ym mis Tachwedd, sydd â £38m yn cael ei ddyrannu i gefnogi cynllun cymorth tanwydd gaeaf. Roedd hwn yn cynnig taliad untro o £100 i aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd tuag at gost eu hanghenion ynni. Ar 1 Chwefror cyhoeddais fod y taliad hwn yn dyblu i £200. Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol becyn gwerth £330m o fesurau i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir ymestyn ein Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf i redeg eto y gaeaf nesaf, gan gyrraedd hyd yn oed mwy o aelwydydd.

Mae'r pecyn o fesurau hefyd yn cynnwys taliad cost byw o £150 i'w ddarparu i bob aelwyd mewn eiddo ym mandiau'r dreth gyngor A i D. Bydd y taliad hwnnw hefyd yn cyrraedd aelwydydd sy'n cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mhob band treth gyngor. Yn absenoldeb camau digonol gan Lywodraeth y DU, bydd hyn yn helpu aelwydydd i dalu am gostau byw ac ymdopi â'r argyfwng ynni sydd arnom yn awr.

Bydd opsiynau pellach i helpu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd gwledig yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar y rhaglen Cartrefi Clyd ac mewn partneriaeth â'r Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd.

Sut gellir annog landlordiaid yn y sector preifat i fynd i'r afael â thlodi tanwydd tenantiaid?

Mae tai yn y sector rhentu preifat yn ddarostyngedig i safonau effeithlonrwydd ynni a bennir gan Lywodraeth y DU. Ar ddiwedd 2020, awgrymodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar [safonau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat](#) gyfres o gynigion polisi i sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat domestig. Roedd hyn yn cynnwys senario polisi dewisol Llywodraeth y DU o'i gwneud yn ofynnol i 'denantiaethau newydd' gyrraedd Band C (EPC) o 1 Ebrill 2025 a 'phob tenantiaeth' i gyrraedd Band C (EPC) erbyn mis Ebrill 2028. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Awgrymodd [Amcangyfrifon tldi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018](#) fod aelwydydd sy'n byw mewn eiddo yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd ac 20% o'r aelwydydd hyn yn byw mewn tldi tanwydd (12% o ran pob aelwyd). Mae Cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cydweithio â Rhentu Doeth Cymru i annog landlordiaid i wella eu heffeithlonrwydd ynni domestig. Yn 2020/21, roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn cyfrif am fwy nag 20% o'r 4,559 o aelwydydd a oedd yn elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni domestig.

Sut y gall unrhyw gynllun(iau) olynol hyrwyddo ystyriaethau sy'n ymwneud â chydaddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn well?

Roedd y cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn destun asesiad effaith integredig a chaiff hyn ei adolygu a'i ddiweddarau wrth i gynigion gael eu datblygu ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Er enghraifft, gwyddom fod bod yn rhan o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o dldi incwm cymharol. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2019-20 roedd tebygolrwydd o 29% y byddai pobl yr oedd pennaeth eu haelwyd yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn tldi cymharol. Mae hyn yn cymharu â thebygolrwydd o 24% i'r rhai y mae pennaeth eu haelwyd yn perthyn i grŵp ethnig gwyn. I blant mae'r tebygolrwydd o fod mewn tldi incwm cymharol ar aelwyd y mae ei phennaeth yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig ddwywaith cymaint nag ydyw i fyw ar aelwyd y daw ei phennaeth o grŵp ethnig gwyn

Rhwng 2017-18 a 2019-20, roedd 38% o blant a oedd yn byw ar aelwyd lle'r oedd rhywun ag anabledd mewn tldi incwm cymharol, o gymharu â 26% ar aelwydydd lle nad oedd neb yn anabl. Yn yr un modd, roedd 31% o oedolion oedran gweithio a oedd yn byw ar aelwyd lle'r oedd rhywun ag anabledd mewn tldi incwm cymharol, o gymharu â 18% o'r rhai a oedd yn byw ar aelwyd lle nad oedd neb yn anabl.

Rwyf wedi mynegi pryder i Lywodraeth y DU ynghylch eu cynigion i ddileu caniatáu i aelwydydd sy'n cael Taliadau Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl fod yn gymwys yn awtomatig i gael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Byddwn yn ystyried yn ofalus sut mae ein rhaglenni'n parhau i gefnogi aelwydydd anabl.

Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyd-fynd yn well â'i hymdrechion i ddatgarboneiddio tai Cymru?

Ar 28 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun [Cymru Sero Net](#), gan ganolbwyntio ar Gyllideb Garbon 2 (2021-2025). Mae'n cynnwys camau i'w cymryd dros ddechrau'r degawd hwn i ddatgarboneiddio cartrefi a pharatoi ar gyfer gostyngiadau pellach mewn allyriadau. Yn y bennod ar Adeiladau yng nghynllun Cymru Sero Net, rydym yn trafod y canlynol:

- Effeithlonrwydd Ynni – Gosod safonau trwm ar gyfer adeiladau newydd ac eiddo sy'n bodoli eisoes, a'r sector tai cymdeithasol yn arwain y ffordd;

- Gwres Carbon Isel – Cael gwared ar ffynonellau gwres tanwydd ffosil yn raddol;
- Newid ymddygiadol a lleihau'r galw – Archwilio sut y gallai sifftiau ymddygiadol a chymdeithasol arwain at lai o alw ac offer sy'n effeithlon o ran ynni;
- Proses bontio deg - sut rydym yn sicrhau nad ydym yn gadael neb ar ôl wrth inni symud i Gymru Ianach, gryfach a thecach.

Mae'n amlwg bod gan y Rhaglen Cartrefi Clyd rôl i'w chwarae o ran cefnogi tai nad ydynt yn rhai cymdeithasol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd thermol ac ynni gorau posibl, yn unol â'n dull o ddatgarboneiddio adeiladau. Fodd bynnag, mae tensiwn rhwng mynd i'r afael â thlodi tanwydd a datgarboneiddio cartrefi Cymru. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyds. Er gwaethaf brys yr argyfwng hinsawdd, ni allwn wthio mwy o bobl i dlodi tanwydd o ganlyniad i'n ffocws ar leihau'r ddibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil. Er enghraifft, ar gyfer aelwydydd sy'n byw gyda system wresogi aneffeithlon neu un sydd wedi torri, bydd gosod boeler nwy effeithlon yn arbed carbon, yn gwella amodau byw mewn cysur ac yn helpu i leihau'r gost o gynnal system wresogi foddhaol.

I lawer o gartrefi byddai symud i fathau eraill o systemau gwresogi yn awr, am resymau sy'n ymwneud ag amser ac arian, yn mynd yn groes i'r bwriad i drechu tlodi tanwydd. Mae angen i gynhyrchu trydan fod yn opsiwn glanach a rhatach cyn i bob deiliad tŷ drosglwyddo i system wresogi trydan. Rydym yn disgwyl y bydd dewisiadau gwresogi carbon isel, megis pŷmpiau gwres, yn dod yn llawer rhatach ac yn fwy hygyrch erbyn diwedd y degawd.

Felly, gall yr adeg amserol i newid boeler nwy mewn rhai achosion godi cyn pen ychydig flynyddoedd, pan fydd cadwyn gyflenwi gryfach a phan fydd costau wedi gostwng. Efallai mai boeleri nwy effeithlon ac sy'n barod am hydrogen yw'r ymateb sero net priodol a fydd yn parhau ar gyfer tlodi tanwydd am gryn amser nes bod dewis arall addas ar gael. Mae hwn yn fater sy'n cael ei ystyried ymhlith rhanddeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Hynny yw, mae angen sicrhau'r cydbwysedd rhwng datgarboneiddio tai a diogelu aelwydydd incwm is rhag tlodi tanwydd.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol, Tachwedd 2021

Mae'r canfyddiadau a'r pum argymhelliad a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad wedi llywio'r ymgynghoriad sydd ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn helpu i sicrhau bod y trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyflawni ein hamcanion polisi. Mae'r adroddiad yn ganlyniad i gydweithio helaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i ddysgu'r gwersi o'r rhaglen bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr allanol i ddarparu cyngor technegol a masnachol wrth i fersiwn nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd gael ei datblygu.

Pumed Senedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar dlodi tanwydd

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar dlodi tanwydd ar 24 Mawrth 2020. Roedd argymhellion 7,8,10 ac 11 yn canolbwyntio ar y camau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fonitro'r effaith y mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn ei chael ar dlodi tanwydd yng Nghymru, sut mae cymorth yn cael ei dargedu, meini prawf cymhwysra aelwydydd ac argaeledd gwaith galluogi. Roedd [ymateb Llywodraeth Cymru](#) ar 9 Mehefin 2020 wrth

dderbyn yr argymhellion hyn yn nodi sut y byddai'r ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn ystyried y materion a godwyd wrth gynllunio'r rhaglen newydd.

Mae adroddiadau blynyddol cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi'u cyhoeddi ers lansio'r cynllun yn 2011. Yn dilyn argymhelliad 7, cafodd gofynion adrodd eu gwella ar gyfer Cynllun Arbed 3 y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r ddau gynllun yn destun gwerthusiad annibynnol cyfnodol sy'n cynnwys asesiad o'r effaith y mae'r cynlluniau wedi'i chael mewn perthynas ag ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Cyhoeddwyd [Gwerthusiad o Gynllun Arbed 3](#) ar 28 Chwefror.

Yn unol â'r camau gweithredu yn ein cynllun, gwnaed cynnydd o ran datblygu dulliau i gefnogi ymdrechion i nodi'r aelwydydd sydd mewn perygl o dlodi tanwydd, neu sy'n byw mewn tlodi tanwydd (argymhelliad 8). Bydd y dangosfwrdd ar gyfer tlodi tanwydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Bydd y dangosfwrdd yn darparu data ar benderfynyddion tlodi tanwydd. Bydd gwybodaeth am gost ynni, incwm aelwydydd ac effeithlonrwydd ynni domestig ar gael i'r cyhoedd i gefnogi ymdrechion ein partneriaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ac ar yr argyfwng ynni a chostau byw mwy diweddar.

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod meini prawf cymhwystra anhyblyg wedi arwain at aelwydydd sy'n agored i niwed, gan gynnwys nad yw pobl anabl a'u teuluoedd wedi gallu cael cymorth er eu bod mewn angen. Fel rhan o'r cynllun newydd ac mewn ymateb i argymhelliad 10, cynigiodd Llywodraeth Cymru adolygu'r Rheoliadau gan nodi'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymorth drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o Gynllun Peilot Cyflyrau Iechyd Cynllun Nyth. Ar sail canlyniad yr ymgynghoriad presennol, gellir gwneud diwygiadau i Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru), er mwyn gwella'r mynediad at y cymorth sydd ar gael drwy'r rhaglen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y diffyg cymorth ariannol i ymgymryd â gwaith galluogi i'r rhai mewn tlodi tanwydd, er mwyn cefnogi cartrefi sydd angen gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn well, yn rhwystr i helpu rhai pobl sydd â'r angen mwyaf (argymhelliad 11). Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ymgynghoriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd sydd bellach ar y gweill. Fel rhan o'n Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer, rydym yn ystyried beth arall y gellir ei wneud i gefnogi aelwydydd i wneud mân atgyweiriadau a fyddai'n eu helpu i ymdopi'n well â thywydd oer.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwarchod y Dyfodol – Y Rhwystr Gofal Plant sy'n Wynebu Rhieni sy'n Gweithio

Caiff mynediad at ofal plant fforddiadwy a hyblyg ei nodi'n aml gan rieni, yn enwedig mamau, fel un o'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio, neu gamu ymlaen yn eu gyrfaedd. Bwriad y model cymysg o ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yw sicrhau bod dewis a hyblygrwydd ar gael i rieni o ran y math o ofal y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu plant. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor, a phartneriaid eraill yn y sector gofal plant a llywodraeth leol, i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol. Mae wedi effeithio ar y sector gofal plant o ran y lleoedd sydd ar gael a lleoliadau. Bydd angen inni gydweithio i fynd i'r afael â'r materion hynny, yn ogystal ag ymateb i'r cyfle cyffrous a gynigir gan y broses o ehangu darpariaeth blynnyddoedd cynnar yn raddol, i gynnwys pob plentyn dwyflwydd oed.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous ac uchelgeisiol ar gyfer gofal plant yng Nghymru ac rwy'n gobeithio y bydd gweithredoedd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn galluogi'r sector i ymateb ac yn ei helpu i wneud hynny.

Hoffwn ddiolch i aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad ar y rhwystrau gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio. Rwy'n falch iawn i weld bod argymhellion y Pwyllgor yn gyson â'n cynlluniau nawr ac yn y dyfodol. Yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor, rwyf wedi rhoi gwybodaeth uniongyrchol mewn ymateb i'r argymhelliad neu'r casgliad, ond rwyf hefyd wedi nodi rhai sylwadau ynghylch yr adroddiad ehangach ac rwy'n gobeithio y bydd y rhain yn ddefnyddiol i chi. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai dulliau posibl gynnwys:

- ysgrifennu at rieni newydd neu hybu'r cymorth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn;
- darparu gwybodaeth i rieni mewn digon o amser cyn diwedd absenoldeb mamolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch gofal plant; a

- datblygu un gwasanaeth gwybodaeth hollgynhwysol i alluogi rhieni i ddarganfod pa ddarpariaeth y mae eu plentyn yn gymwys i'w chael ar unrhyw adeg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau bod rhieni yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am opsiynau gofal plant a'r cymorth sydd ar gael er mwyn gwneud dewisiadau doeth ynghylch eu trefniadau gofal plant. Mae mecanweithiau eisoes ar waith ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni â "darpar rieni" o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy y gellir ei wneud i sicrhau bod rhieni yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ddarpariaeth a chymorth a defnyddio'r ddarpariaeth a'r cymorth hwnnw.

Un o'r prif ffynonellau gwybodaeth sy'n helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewisiadau doeth ynghylch gofal plant yw [Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd](#) awdurdodau lleol. Mae'r wefan hon yn galluogi defnyddwyr i nodi eu cod post a dod o hyd i wybodaeth am yr opsiynau gofal plant sydd ar gael iddynt yn eu hardaloedd lleol, p'un a yw'r ddarpariaeth gofal plant honno yn agos at eu cartref neu eu gwaith. Mae gwefan Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn galluogi rhieni i gael gafael ar wybodaeth am gynlluniau chwarae, cynlluniau cofleidiol, clybiau gwyliau a gwasanaethau cymorth eraill, fel lleferydd ac iaith, rhianta neu gymorth gyda phroblemau ymddygiadol.

Er mwyn gwella'r cymorth hwn, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant i gonsortium CWLWM yn 2021-22 i fynd ati i ddiweddarau taflen ar-lein "Dewis Gofal Plant" sydd wedi'i hanelu at rieni a gofalwyr. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am fanteision gofal plant a'r gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael i rieni. Mae hefyd yn cynnwys manylion am sut i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant. Dylai'r llyfryn ar ei newydd wedd fod ar gael i rieni yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i ystyried cyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth o opsiynau gofal plant. Bydd hyn yn cynnwys dulliau i ymgysylltu â rhieni newydd ac ar bwyntiau pontio allweddol pan fydd rhieni yn debygol o ailedrych ar eu trefniadau gofal plant, fel dychwelyd i'r gwaith neu ddechrau gwaith, symud i ddarpariaeth addysg yn 3 oed, a symud i addysg amser llawn. Byddwn yn ceisio sicrhau'r budd mwyaf o bwyntiau ymgysylltu presennol, gan gynnwys ein cynlluniau ar gyfer cyflwyno bwndeli babanod i fwy o rieni, ein hymgyrch 'Magu plant. Rhowch Amser iddo' a chynlluniau a ariennir fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cael eu hyrwyddo yn y cymunedau sy'n cael budd ohonynt. Gwneir hyn yn bennaf drwy waith Ymwelwyr Iechyd dynodedig Dechrau'n Deg sy'n ymgysylltu â theuluoedd fel rhan o wasanaethau Ymweliadau Iechyd gwell Dechrau'n Deg. Mae'n ofynnol i dimau Dechrau'n Deg feddu ar strategaethau eraill ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a disgwylir iddynt amlinellu'r rhain fel rhan o brosesau cynllunio blynyddol. Caiff llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio fwyfwy gan

awdurdodau lleol i sicrhau bod teuluoedd Dechrau'n Deg yn clywed negeseuon allweddol.

Rydym yn parhau i weithio gyda CThEM i ddiweddarau gwefan [Childcare Choices](#) Llywodraeth y DU sydd hefyd yn rhoi gwybodaeth am opsiynau gofal plant lleol i rieni. Mae gwefan Childcare Choices hefyd yn cynnwys cyfrifiannell gofal plant, sy'n helpu rhieni i ganfod a oes unrhyw gynlluniau cymorth ariannol ar gael iddynt. Mae hefyd yn helpu gyda phenderfyniadau ariannol a wneir o ran gofal plant a dewisiadau ynghylch yr hyn sy'n gweithio orau i'r teulu.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Casgliad 1

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ehangu'r Cynnig Gofal Plant presennol i blant dwy flwydd oed, ond mae o'r farn y bydd cynyddu'r cynnig y tu hwnt i'r 20 awr yr wythnos a gynigir ar hyn o bryd yn galluogi rhagor o rieni i ddychwelyd i'r gwaith, ac felly'n lleihau anghydraddoldebau ymhellach.

Ymateb: Nodiadau

Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau yn cynnwys tri ymrwymiad sy'n ymwneud â gofal plant a'n gweledigaeth tymor hwy ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar, fel a ganlyn:

- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw
- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith
- Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg

Pan gafodd ei sefydlu, prif nodau'r Cynnig Gofal Plant oedd galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith; cynyddu incwm gwario'r rhai sy'n gweithio a helpu i atal tlodi ymhlith y rhai sydd mewn swyddi â chyflog isel; ac annog datblygiad plant a sicrhau eu bod yn barod ar gyfer ysgol.

Mae cynyddu'r cymorth a roddir i rieni mewn addysg a hyfforddiant i dalu costau gofal plant yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw i gefnogi'r rheini sy'n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybr gyrfa. I'r perwyl hwn, ac i gefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i [ehangu'r Cynnig Gofal Plant](#) i rieni mewn addysg a hyfforddiant o fis Medi 2002, gyda ffocws cychwynnol ar y rhai sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynyddu nifer yr oriau o ofal plant a ariennir sydd ar gael o dan y Cynnig Gofal Plant. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried hyn fel rhan o uchelgais ein cynllun gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, rydym yn gweithio i ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol, er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer cyflwyno'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a bydd cyhoeddiadau pellach yn y man.

Goblygiadau Ariannol – Mae Cyllideb 2022-23 yn cynnwys dyraniad o hyd at £9m y flwyddyn er mwyn gallu ehangu'r Cynnig i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwch hwn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Lansiwyd ein gweledigaeth ar gyfer system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar gyfannol yng Nghymru ym mis Hydref 2019. Ein nod yw cynyddu mynediad at ddarpariaeth Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod mwy o blant a theuluoedd yn gallu cael budd o ddarpariaeth a ariennir cyn oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'r sector a'i ddatblygu er mwyn gallu gwneud hyn.

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn elfen allweddol o ddarpariaeth â chymorth. Y cam cyntaf yn y broses o ehangu'r ddarpariaeth yw'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i helpu rhieni/gofalwyr plant 3-4 oed sydd mewn addysg neu hyfforddiant i gael mynediad at ofal plant. Nodwyd hyn yn ein [datganiad ysgrifenedig](#) a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth 2022.

Mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gaiff ei hehangu'n raddol er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru, fel y nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau a'r Cytundeb Cydweithio. Er bod y polisi wrthi'n cael ei lunio o hyd, pan gaiff ei weithredu'n llawn, y ddarpariaeth gofal plant i blant 2 oed yng Nghymru fydd yr un fwyaf hael o bob un o wledydd y DU.

Byddwn yn mynd ati i baratoi cynllun gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddiweddarach eleni a fydd yn nodi'r map ffordd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac yn datgan sut y byddwn yn sicrhau bod y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar yn cael ei gefnogi i gyflawni nodau uchelgeisiol Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, gan gynnwys sicrhau bod mwy o blant a theuluoedd yn cael mynediad at y ddarpariaeth.

Bydd hyn yn cynnwys ein huchelgeisiau ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae, yn ogystal â darparwyr addysg gynnar i blant 3-4 oed. Caiff unrhyw estyniadau pellach i'r cymorth a roddir i rieni er mwyn helpu gyda chostau gofal plant eu hystyried yng nghyd-destun fforddiadwyedd a chaiff ei lywio gan werthusiad o fentrau er mwyn asesu eu heffaith.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Caiff penderfyniadau ynghylch newidiadau i bolisiau yn y dyfodol eu llywio gan gyllidebau yn y dyfodol a byddant yn rhan o gylchoedd cyllideb arferol.

Casgliad 2

Mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle arfaethedig o ehangu'r Cynnig Gofal Plant fel cyfle i adolygu a lleihau'r cymhwysedd i bob rhiant ennill hyd at £100,000 y flwyddyn.

Ymateb: Nodiadau

Sefydlwyd y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru i gefnogi rhieni sy'n gweithio, gyda meini prawf cymhwysedd cysylltiedig. Ar y pen isaf, mae angen i rieni ennill swm sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog perthnasol ac, ar y pen uchaf, ni all rieni ennill mwy na £100,000 o incwm gros y flwyddyn fesul rhiant.

Er y gellid ystyried y byddai symud i gap ar enillion cartref, neu leihau'r cap enillion uchaf, yn gwneud y cynllun yn fwy teg, mae tystiolaeth o'r [gwerthusiad annibynnol o'r Cynnig](#) yn awgrymu nad yw mwyafrif y rhieni sy'n manteisio arno yn ennill yn agos at y terfyn hwn.

Band cyflog gros blynyddol canolrifol unigolion sy'n manteisio ar y Cynnig rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021 oedd £20,888 i £25,999. Mae hyn yn is na'r cyflog cyfartalog cenedlaethol llawn amser, sef £28,158 y flwyddyn yn 2020, fel y'i cofnodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Swyddfa Ystadegau Gwladol). Roedd dros hanner (o leiaf 55 y cant) o'r rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ennill llai na'r cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr llawn amser. At hynny, roedd ychydig dros chwarter (27 y cant) o'r rhieni yn ennill llai na £15,600. I'r gwrthwyneb, dim ond lleiafrif (6 y cant) a oedd yn ennill £52,000 neu fwy.

Rydym yn parhau i adolygu pob agwedd ar y Cynnig a byddwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i gynyddu mynediad at ddarpariaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar a ariennir ar gyfer pob plentyn fel rhan o'n cynigion tymor hwy i gyflawni ein gweledigaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar ymhellach.

O ran ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwyflwydd oed, mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei lunio o hyd, ond bydd cymhwysedd yn un o'r agweddau a gaiff eu hystyried.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu waith ar gontractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ers iddo ddechrau cael ei gyflwyno yn 2017, mae'r meini prawf cymhwysedd y mae'r Cynnig Gofal Plant yn seiliedig arnynt wedi sicrhau ei fod ar gael i bob rhiant cymwys sy'n gweithio, p'un a yw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys y rhai â phatrymau gweithio ansafonol a'r rhai sydd ar gontractau dim oriau. Mae prentisiaethau hefyd yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig.

Yn ogystal, mae'r Cynnig Gofal Plant bob amser wedi cynnig hyblygrwydd i rieni o ran sut a phryd y gallant fanteisio arno. I'r perwyl hwn, gellir manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn ystod unrhyw oriau gweithredu, ddydd neu nos, gan gynnwys ar benwythnosau. Mae hyn yn golygu bod clybiau brecwast, clybiau prynhawn a chlybiau gwyliau yn gallu cyflwyno elfen gofal plant y Cynnig hefyd, ar yr amod eu bod wedi'u cofrestru ag AGC (neu Ofsted os ydynt wedi'u lleoli yn Lloegr). Felly, nid ydym o'r farn bod angen newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig i alluogi rhieni i wneud cais am ddarpariaeth a ariennir na derbyn y ddarpariaeth honno.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r gallu i gael arian i dalu am ofal plant o dan y Cynnig yr un fath â gallu dod o hyd i ofal plant sy'n diwallu anghenion teuluoedd unigol. Mae gofal plant ac addysg gynnar fforddiadwy, hyblyg a hygyrch yn allweddol i ymgais Llywodraeth Cymru i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb. Yn aml, mae'r rheini sy'n gweithio ar gontractau annodweddiadol neu gontractau dim oriau neu mewn rolau â phatrymau gweithio hyblyg yn ei chael hi'n anodd ar y cyfan i ddod o hyd i ddarpariaeth gofal plant sy'n gweddu i'w hanghenion.

Bydd awdurdodau lleol, drwy gwblhau eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2022, yn nodi anghenion gofal plant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol ac yn ystyried unrhyw rwystrau a brofir gan y teuluoedd hyn o ran cael mynediad at ofal plant. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r gofal plant sydd ar gael i'r teuluoedd hyn yn ddigonol neu'n addas, bydd disgwyl i awdurdodau lleol nodi camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Ar lefel genedlaethol, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod darpariaeth ledled Cymru i ddiwallu anghenion pob rhiant a phlentynt.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i gryfhau canllawiau a deddfwriaeth i sicrhau darpariaeth well, fwy cyson o ysgolion bro ledled Cymru.

Ymateb: Derbynn

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i “fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol”.

Mae gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau addysgol i blant a'r gymuned leol wastad wedi bod yn nod allweddol sy'n ategu buddsoddiad mewn addysg drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae angen i'r holl brosiectau a gefnogir ganddi ddangos sut y gall y cyfleusterau yn eu hysgolion gael eu defnyddio i gefnogi eu cymuned leol a bod yn adnoddau hygyrch a rennir mewn cymunedau yng Nghymru, yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddynt; gan gynnwys y cyfle arloesol i gydleoli gwasanaethau yn eu hardal. Wrth adeiladu cyfleusterau cymunedol, mae angen i randdeiliaid gydymffurfio â Deddf Addysg 2002 a Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol 2008 sy'n amlinellu cyfrifoldebau penodol o ran cyfleusterau cymunedol. Mae amodau grant hefyd ynghlwm wrth Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Cyflwynwyd Cynllun Peilot Hybiau Cymunedol gwerth £15 miliwn yn 2019-20. Mae'r cynllun, a reolir drwy'r rhaglen, yn darparu cyllid cyfalaf i 21 o gynlluniau peilot. Hyd yma, mae 11 ohonynt wedi'u cwblhau, mae 4 yn cael eu hadeiladu a disgwylir i'r gwaith o adeiladu 6 arall ddechrau. Cafodd y cyllid ei ddyrannu ar sail tair thema; ehangu ymgysylltiad â'r teulu a'r gymuned; ehangu'r defnydd o asedau ffisegol i'w defnyddio gan y gymuned; a chydleoli gwasanaethau i ffurfio hybiau cymunedol.

Un o'r ddau amcan buddsoddi ar gyfer ail don fuddsoddi'r Rhaglen, gwerth £2.3 biliwn, yw gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus i'n cymunedau erbyn 2024. Mae hyn yn cynnwys asedau hyblyg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r lle a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n cymunedau; defnyddio eu cyfleusterau i ehangu ymgysylltiad â'r teulu a'r gymuned a chydleoli gwasanaethau i ffurfio hybiau cymunedol. Mae ein hasesiad cadarn o'r broses o graffu ar achosion busnes yn sicrhau bod hyn yn gyson ag uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer cymunedau; a mwy o fuddsoddiad mewn cyfleusterau aml-dddefnydd, sy'n cynnig lle i ddarpariaeth Dechrau'n Deg ac Addysg a Gofal Plentynod Cynnar, gydag opsiynau i gynnal gweithgareddau ar ôl ysgol hefyd. Dylai hyn gynnwys darpariaeth o leoedd chwarae cynhwysol, sydd ar gael y tu allan i oriau ysgol craidd. Mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad o £70m dros y tair blynedd nesaf i Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a fydd yn galluogi darparwyr gofal plant i gael gafael ar gyllid cyfalaf i gefnogi

gwelliannau cyfalaf, gyda ffocws penodol ar gydleoli gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddatblygu fframwaith polisi a chryfhau canllawiau presennol drwy weithio gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion o feysydd polisi gwahanol ac arweinwyr a grwpiau allweddol yn y sector addysg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor ar y cyd sy'n cynnwys timau Integreiddio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, Tai ac Ysgolion Cymunedol. Mae'r gweithgor yn ystyried cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cymunedau orau. Ymhlith yr enghreifftiau posibl mae cydleoli ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant. Fodd bynnag, gallai hyn hefyd gynnwys gwasanaethau ar gyfer y gymuned ehangach fel meddygon teulu.

Fel rhan o setliad cyllidebol 2022/23, mae £20m wedi'i ddyrannu i Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i gyflawni blaenoriaethau'n ymwneud ag ysgolion cymunedol gan gynnwys cydleoli cyfleusterau/gwasanaethau cymorth.

Goblygiadau Ariannol – Byddwn yn ystyried yr angen am gyllid i gefnogi ysgolion cymunedol fel rhan o brosesau cynllunio cyllideb yn y dyfodol. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes a chyllidebau rhaglenni yn y dyfodol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ei hymateb yn nodi ei chynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd.

Ymateb: Derbynn

Mae dilyniant o'r gofal plant cyfrwng Cymraeg a ddarperir drwy gylchoedd meithrin yn uchel (90%). Ceir cyfradd uwch fyth (96%) pan fo'r cylch a'r ysgol wedi'u cydleoli. Er mwyn sicrhau cynnydd tuag at gyflawni nodau Cymraeg 2050, mae'n hanfodol bod cymaint o sylw â phosibl yn cael ei roi i bwysigrwydd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer cyllid yn ystod cam olaf rhaglen grant cyfalaf y Cynnig Gofal Plant oedd cyllido lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Cafodd dros hanner y buddsoddiad o £80m ar gyfer gofal plant ei ddyrannu i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chymeradwywyd 53 o gynigion ledled Cymru i ddatblygu lleoliadau cyfrwng Cymraeg newydd neu adnewyddu lleoliadau o'r fath mewn ysgolion.

Rydym wrthi'n datblygu'r rhaglen olynol i gefnogi buddsoddiad cyfalaf mewn lleoliadau gofal plant (2022-23 i 2024-25). Mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad o

£70m dros y tair blynedd nesaf a fydd yn galluogi darparwyr gofal plant i gael gafael ar gyllid cyfalaf i gefnogi gwelliannau cyfalaf, gyda ffocws penodol ar gydleoli gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i nodi gwelliannau i ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cydleoli'r ddarpariaeth ar safleoedd ysgol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynnig Gofal Plant estynedig newydd.

- Rhaid i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ddangos sut yr ystyriwyd ac yr ymdriniwyd â phryderon y Comisiynydd Plant ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019.
- Mae'n ofynnol i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i ddatblygiad y Cynnig Gofal Plant estynedig, ac i alluogi rhanddeiliaid a'r Pwyllgor i graffu ar y graddau y mae hyn wedi'i gyflawni.
- Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael eu cwblhau a'u cyhoeddi cyn gynted â phosibl ac o leiaf fis cyn i'r Cynnig Gofal Plant estynedig newydd ddod i rym.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant o fis Medi 2022, gyda ffocws cychwynol ar y rhai sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach. Fel rhan o'r gwaith i ehangu'r Cynnig, caiff yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, eu diweddarau. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig ei gyhoeddi o leiaf fis cyn i'r Cynnig estynedig newydd ddod i rym.

O ran ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwyflwydd oed, mae swyddogion polisi wedi dechrau cynnal Asesiad Effaith Integredig llawn, a fydd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, er mwyn caniatáu i ystod lawn o effeithiau gael eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi pellgyrhaeddol hwn. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig ei fireinio fel dogfen fyw drwy gydol cylch oes y polisi o ran yr ymrwymiad i ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwyflwydd oed er mwyn sicrhau bod anghenion amrywiol plant a theuluoedd yng Nghymru yn parhau i fod yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir ar adegau cerrig milltir allweddol. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig ei gyhoeddi o leiaf fis cyn i'r cynnig estynedig ddod i rym.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru wedi cael ei ddatblygu i ddarparu gwybodaeth a chynghor diduedd am ddim ar amrywiaeth eang o wasanaethau i blant a phobl ifanc (o'u geni hyd at 25 oed), rhieni a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth eang o faterion Gofal Plant, Cymorth i Blant a Theuluoedd a materion eraill sy'n ymwneud â Theuluoedd a, lle y bo'n berthnasol, wasanaeth cyfeirio i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid. Mae cynulleidfa darged y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr gofal plant presennol a darpar ddarparwyr gofal plant a all fod yn chwilio am wybodaeth am amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael effaith ar fywydau plant a'u teuluoedd.

Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa ddelfrydol i ddeall anghenion eu cymunedau lleol a darparu gwasanaeth o safon i bawb, ni waeth beth fo'u demograffeg neu gymuned. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Phennaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rheolaidd hefyd. Er mwyn cefnogi cynnydd pellach yn y maes hwn, byddwn yn tynnu sylw gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd ledled Cymru at y canfyddiadau a'r argymhellion pwysig yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys yr angen i fod yn fwy cynhwysol ac i ddarparu gwybodaeth hygyrch i bawb yn eu cymuned. Rydym yn cydnabod y cyfle i adeiladu ar arferion da a welir mewn ardaloedd fel Caerdydd sy'n darparu gwybodaeth mewn nifer o ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, a byddwn yn tynnu sylw at yr arferion effeithiol hyn yn ein trafodaethau â gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio ei thaflen ar-lein "Dewis Gofal Plant" sydd wedi'i hanelu at rieni a gofalwyr. Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am fanteision gofal plant a'r gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael i rieni. Mae hefyd yn cynnwys manylion am sut i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant. Dylai'r llyfryn ar ei newydd wedd fod ar gael i rieni yn fuan. Caiff ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg i ddechrau. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a oes angen ei gyfieithu i ieithoedd eraill lle y bo'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon cyffredin ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer:

- ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant; a
- datblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys targedau uchelgeisiol, ar gyfer cynyddu nifer y staff o leiafrifoedd ethnig yn y sector.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo gweithio tuag at ddod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Rydym wedi gwneud ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i weithredu ac ariannu'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 16 wythnos ffurfiol ar y fersiwn ddrafft o'r [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol](#) rhwng 21 Mawrth a 15 Gorffennaf 2021. Cafwyd 320 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion hynny bellach yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i gryfhau'r Cynllun drafft.

Nid oedd y Cynllun gwreiddiol yn cynnwys camau gweithredu yn benodol o dan bennawd y sector Gofal Plant a Chwarae, er bod y sector Gofal Cymdeithasol a'r sector Addysg yn cynnwys camau gweithredu. Cyfrannodd llawer o gyrff cynrychioliadol a lleoliadau gofal plant a chwarae unigol at yr ymgynghoriad, gan godi pryderon ynghylch y ffaith nad oedd unrhyw gamau gweithredu penodol yn y sector Gofal Plant a Chwarae, ac roedd hynny'n ddefnyddiol. Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio i gwmpasu rhai camau gweithredu arfaethedig cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector er mwyn sicrhau y gallwn gyfrannu at nodau ac uchelgeisiau'r Cynllun wrth i fersiynau dilynol ohono gael eu datblygu yn y dyfodol.

Caiff y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2022 a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y sector Gofal Plant a Chwarae. Bydd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw a fydd yn datblygu ac yn cael ei diweddarau a chaiff y camau gweithredu ar gyfer Gofal Plant a Chwarae eu cynnwys yn y ddogfen honno unwaith y bydd gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dod i ben.

Byddwn yn adolygu ein cynllun 10 mlynedd i'r gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, i weld a oes angen ei ddiwygio yn sgil datblygiadau diweddar. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaid CWLWM i ddatblygu a chynhyrchu adnoddau a deunydd hyfforddi sy'n ymwneud ag egwyddorion gwrth-hiliaeth, yn ogystal â hyrwyddo gofal plant mewn cymunedau ethnig lleiafrifol, i ddatblygu adnoddau, gan gynnwys weminarau a hyfforddiant i gefnogi ymarferwyr gofal plant.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wella'r ffordd y caiff y sector gofal plant ei hyrwyddo ac i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio gyda'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil i nodi sylfaen dystiolaeth ar gyfer y sector gofal plant er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o broffil cyfredol y gweithlu a gallu mesur cynnydd yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun yn ei hymateb sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae CWLWM yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cynigion rydym yn eu datblygu fel rhan o gyfraniad y sector gofal plant a chwarae i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol fydd y cam cyntaf tuag at fynd i'r afael â'r problemau hyn sydd wedi hen ymwreiddio, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r camau hynny fod yn rhai bach. Mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid inni sicrhau bod ein sylfeini yn ddigon cadarn er mwyn inni allu cymryd camau brasach yn y dyfodol.

Rhaid i bob un ohonom gydweithio i gyflawni newid a sicrhau na fyddwn yn parhau i siomi ein cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae cyfrifoldeb am ei lwyddiant yn nwylo pob un ohonom. Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid CWLWM i gefnogi sector gofal plant sy'n fwy amrywiol yn ddiwylliannol. Drwy gyllid grant Llywodraeth Cymru, mae consortiwm CWLWM yn datblygu adnoddau ac yn darparu weminarau a deunydd hyfforddi i'r sector er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o egwyddorion amrywiaeth, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth a hyrwyddo arferion da ym mhob rhan o'r sector.

Wrth adolygu ein cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol i nodi'r ffordd orau o helpu'r sector i fod yn fwy amrywiol yn ddiwylliannol a'r hyfforddiant a'r adnoddau y gall fod eu hangen er mwyn gwneud hynny.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes neu gyllidebau rhaglenni yn y dyfodol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn cynnwys darpariaeth benodol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol o dan y Grant Cymorth Ychwanegol. Mae'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru, nad yw'n ddarostyngedig i gap uchaf, ar gael i gefnogi amrywiaeth o anghenion cymorth gan gynnwys costau staff ychwanegol, prynu cyfarpar neu ddarparu hyfforddiant, ac mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod y cymorth a roddir yn gyson rhwng elfennau addysg a gofal plant y Cynnig.

Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2022 er mwyn nodi'r graddau y mae digon o ofal plant yn eu hardal awdurdod lleol i alluogi rhieni i weithio neu hyfforddi. Rhan sylfaenol o'r broses hon yw nodi anghenion teuluoedd â phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, yn ogystal â'r rhwystrau a wynebir gan y teuluoedd hyn o ran cael mynediad at ofal plant. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r gofal plant sydd ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigonol neu'n addas, bydd disgwyl i awdurdodau lleol nodi camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae'r asesiadau hyn hefyd yn llywio'r cyllid sydd ei angen i ymateb i'r anghenion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £2.2m i awdurdodau lleol bob blwyddyn i gefnogi gweithgarwch yn eu hardaloedd i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd yn eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, yn enwedig lle mae'n ymwneud â darpariaeth i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Dyrennir y cyllid hwn drwy'r Grant Plant a Chymunedau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Caiff penderfyniadau ynghylch newidiadau i bolisïau yn y dyfodol eu llywio gan gyllidebau yn y dyfodol a byddant yn rhan o gylchoedd cyllideb arferol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r Cynnig Gofal Plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwy flwydd oed ag anghenion ychwanegol neu gymhleth i gael mynediad llawn at ddarpariaeth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Wrth inni ystyried y gwaith o ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru, bydd hyn yn cynnwys ystyried y rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth. Byddwn yn sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu hystyried yn llawn mewn cynlluniau cwmpasu i gynnig y cymorth hwn ac wrth gyflwyno'r ddarpariaeth, a bydd cyllidebau yn cynnwys lwfansau priodol i ddarparu'r cymorth hwn.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cymorth hwn yn rhan o'r dirwedd blynyddoedd cynnar ehangach, gan ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o raglenni blynyddoedd cynnar sydd ar gael i blant a theuluoedd. Gwelir hyn yn ein rhaglen Dechrau'n Deg, lle mae plant a theuluoedd yn manteisio ar fynediad at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal â mynediad ychwanegol at ymwelwyr ieuchyd a chymorth rhianta.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes wrth i'r rhaglen gael ei datblygu. Caiff penderfyniadau ynghylch newidiadau i bolisiau yn y dyfodol eu llywio gan gyllidebau yn y dyfodol a byddant yn rhan o gylchoedd cyllideb arferol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i sicrhau y caiff cynllun capasiti tymor hir y sector cyfrwng Cymraeg, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei archwilio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, ei lunio ochr yn ochr â gwaith ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Dylai hyn adlewyrchu'r effaith y mae prinder staff yn ei chael ar y sector cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Ymateb: Derbyn

Mae problemau o ran capasiti'r gweithlu yn y sector gofal plant a chwarae wedi'u dogfennu'n helaeth. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar recriwtio a chadw staff, ond hefyd ar ddatblygu gyrfa. Mae'r problemau hyn yn waeth o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r sector gofal plant i dyfu, gan sicrhau mynediad at ofal plant hyblyg a fforddiadwy i bob teulu. Wrth wraidd hyn mae ehangu'r gweithlu a sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu gyrfaedd. Ar y cyd â phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, CWLWM a Gofal Cymdeithasol Cymru, byddwn yn cymryd camau i sicrhau y gall cynifer o bobl â phosibl gael gyrfa yn y sector gofal, gan ddenu amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiadau.

Rydym wedi bod yn siarad â phartneriaid allweddol am yr heriau o ran recriwtio a chadw staff y mae'r sector yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn amrywio. Mae rhai materion sy'n wynebu'r sector cyfrwng Cymraeg neu'r sector cyfrwng Saesneg yn benodol, ond mae llawer o faterion sy'n wynebu'r ddau fel ei gilydd. Mae ein hymarferwyr gofal plant eisiau gael eu parchu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith pwysig y maent yn ei wneud i gefnogi ein plant. Maent

eisiau cael eu talu'n briodol, a chael telerau ac amodau cyflogaeth teg a rhesymol. Ac maent eisiau mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu i'w galluogi i ddatblygu yn eu gyrfaedd.

Byddwn yn cynnal adolygiad canol tymor o'n cynllun 10 mlynedd i'r gweithlu, gan gadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu sector Addysg a Gofal Plentynod Cynnar o safon uchel, gyda gweithlu hyfedr sy'n cael ei barchu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu amrywiaeth y gweithlu, datblygu llwybrau newydd ar gyfer y rhai sydd am ymuno â'r gweithlu neu ailhyfforddi oddi mewn iddo, a denu pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd i'r sector. Er mwyn gwneud hynny, mae'n bosibl y bydd angen inni roi ffocws newydd i raglenni hyfforddi a datblygu sy'n bodoli eisoes, teilwra buddsoddiad newydd wrth i raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ddod i ben a chyfeirio buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau newydd at ardaloedd lle nad oes digon o ofal plant ar hyn o bryd.

Gan edrych yn benodol ar yr heriau sy'n wynebu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rydym yn ymgymryd â gwaith dadansodol mewn perthynas â'r proffil gwasanaethau presennol ac yn rhoi amcanestyniadau o ran maint a phroffil y gweithlu cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn llywio gwaith cynllunio o ran maint y gweithlu cyfrwng Cymraeg y bydd ei angen i gyflawni'r ymrwymïadau yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn trafod y canfyddiadau â phartneriaid allweddol ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu cynlluniau i gefnogi a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer adolygiad o sut y mae'n hyrwyddo gyrfaedd yn y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut y gellir defnyddio addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod gan y sector ddigon o staff.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu partneriaid CWLWM, yn enwedig Mudiad Meithrin, i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi a hyrwyddo gyrfaedd yn y sector gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg o gynlluniau datblygu gyrfa i gyrsiau penodol ar gyfer darpar ymarferwyr cyfrwng Cymraeg gydag ysgolion a cholegau AB.

Bydd y cynllun newydd i'r gweithlu yn cynnwys ymrwymiad i barhau â'r gwaith hyrwyddo a'r cymorth a roddir i'r gweithlu cyfrwng Cymraeg ac adeiladu arnynt.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn adolygiad o'r tâl fesul awr a delir am ofal plant o dan y Cynnig Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y gyfradd yn cynyddu o £4.50 i £5.00 yr awr o fis Ebrill 2022. Cyhoeddwyd hyn mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) ar 22 Chwefror. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i adolygu cyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant o leiaf bob tair blynedd.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, cytunwyd i ddarparu cyllid ychwanegol er mwyn sicrhau bod cyfraddau cyllido gofal plant a darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen yn parhau'n gyson o dan y Cynnig Gofal Plant, ynghyd â buddsoddiad ychwanegol mewn gofal plant Dechrau'n Deg.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yng Nghymru yn ddarparwyr preifat neu elusennol ac felly ni all Llywodraeth Cymru bennu lefelau cyflog. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae cyllid y llywodraeth yn ei chwarae wrth helpu lleoliadau i greu amodau gwaith da. Un o nodau'r cynnydd sydd ar ddod yng nghyfradd fesul awr ar gyfer gofal plant y Cynnig Gofal Plant yw helpu lleoliadau i allu cynnig cyfraddau cyflog rhesymol i'w staff.

Goblygiadau Ariannol – Mae Cyllideb 2022-23 yn cynnwys dyraniad dangosol o £10m ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf i gyllido'r cynnydd yn y gyfradd.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau y caiff ei chynllun gweithlu arfaethedig ei ddatblygu gyda phartneriaid cymdeithasol, a'i fod yn cynnwys ffocws ar wella amodau gwaith yn y sector, yn ogystal â datblygu'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cyhoeddwyd Cynllun 10 Mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu'r Gweithlu yn 2017 a chaiff ei ddiweddarau yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r gwaith a wnaed hyd yma a nodi nodau ac amcanion newydd sy'n ystyried effaith y pandemig ac ymrwymadau newydd sy'n deillio o'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, y mae pob un ohonynt yn effeithio ar y gweithlu gofal plant a strwythur y ddarpariaeth gofal plant.

Caiff y cynllun diwygiedig ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sector a phartneriaid cymdeithasol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi a datblygu'r gweithlu, boed hynny o ran maint, ffurf ac amrywiaeth y gweithlu neu sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr unigol.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yng Nghymru yn ddarparwyr preifat neu elusennol ac felly ni all Llywodraeth Cymru ddiffinio amodau gwaith yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae cyllid y llywodraeth yn ei chwarae wrth helpu lleoliadau i greu amodau gwaith da. Un o nodau'r cynnydd sydd ar ddod yng nghyfradd y Cynnig Gofal Plant a delir i leoliadau yw helpu lleoliadau i allu cynnig cyfraddau cyflog rhesymol i'w staff. Nod cymorth arall gan Lywodraeth Cymru fel rhoi rhyddhad ardrethi busnes o 100% i leoliadau gofal plant cofrestredig, buddsoddiadau cyllid cyfalaf a chymorth, a grantiau cynaliadwyedd sydd ar gael gan awdurdodau lleol, yw helpu lleoliadau gyda gorbenion er mwyn eu helpu i allu cynnig cyfraddau cyflog rhesymol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyrraedd ac yn denu grwpiau megis lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo gyrfaedd ym maes gofal plant yng Nghymru ac mae'r gwaith hwn yn cael ei adolygu'n barhaus. Er mwyn helpu i ddenu pobl â'r sgiliau a'r ymddygiadau cywir i'r sector a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y gwaith a wnânt, rydym yn rhoi cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer ei ymgyrch recriwtio a chadw genedlaethol: Gofalwn.Cymru.

Nod yr ymgyrch hon yw codi proffil y sector a dangos sut brofiad yw hi i weithio ynddo a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael. Caiff yr ymgyrch ei chefnogi gan grŵp cenedlaethol o randdeiliaid sy'n cynnwys aelodau o gyrff ambarél gofal plant a chwarae.

Yn sgil y pandemig, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi ymgyrch barhaus ar waith nawr sy'n golygu y gellir cymryd camau ymatebol mewn perthynas ag unrhyw faterion denu, recriwtio a chadw staff. Mae hyn yn adeiladu ar ei [hysbyseb deledu](http://hysbyseb.deledu) ddiweddar sy'n dangos y rhinweddau a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant a'i waith #diolch lle roedd plant a rhieni yn cydnabod ymarferwyr ac yn diolch iddynt am bopeth y maent yn ei wneud iddynt.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi datblygu Cenhadon Gofalwn.Cymru sy'n codi proffil gwaith yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Gwirfoddolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n gweithio yn y sector yw'r Cenhadon. Maent yn helpu pobl i archwilio'r opsiynau gyrfa gwahanol a'r cyfleoedd datblygu gyrfa sydd ar gael yn y sector. Gall gwaith Cennad gynnwys rhoi cyflwyniadau i fyfyrwyr ysgol neu goleg; cynnal sgysiau neu drafodaethau anffurfiol; mynd i ffeiriau gyrfaedd neu swyddi, digwyddiadau neu gynadleddau.

Nod Gofalwn.Cymru yw denu amrywiaeth eang o bobl i weithio yn y sector gofal plant, a byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau y rhoddir pwyslais o'r newydd ar amrywiaeth a sicrhau bod Cenhadon yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnig gofal cofleidiol i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae awdurdodau lleol, drwy eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, yn mesur lefel y galw am ofal plant y tu allan i ysgol yn eu hardal, ac yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i fodloni'r galw hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cymorth ariannol i awdurdodau lleol fodloni unrhyw alw nas bodlonwyd am ofal plant yn eu hardaloedd lleol, a all gynnwys camau i gynyddu nifer y gweithgareddau gofal plant a gwaith chwarae cofleidiol a thu allan i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Clybiau Plant Cymru fel rhan o'r grant blynyddol i gonsortiw CWLWM i gefnogi a chynghori'r sector tu allan i'r ysgol yng Nghymru, gan helpu clybiau newydd i gael eu sefydlu a chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol.

O ran darpariaeth ar ôl ysgol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn Gaeaf Llawn Lles gwerth £6.4m er mwyn i bob ysgol gynnig mwy o sesiynau yn ystod y diwrnod ysgol ac o'i amgylch i hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol drwy gynnig mwy o gyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau creadigol, chwaraeon, chwarae a diwylliannol yn Gymraeg a Saesneg. Nod hyn yw creu amgylchedd gwell ar gyfer dysgu a gwneud cynnydd a cheisio ailennyn hyder pob dysgwr, yn enwedig y rhai y mae'r pandemig wedi cael yr effaith fwyaf arnynt. Bydd y pecyn ehangach hwn yn rhoi tystiolaeth a gwybodaeth werthfawr inni ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cyllido treial bach sy'n cynnig pum awr yr wythnos o weithgareddau cyfoethogi ychwanegol i dros 1,800 o ddysgwyr o amgylch y diwrnod ysgol. Bydd y

treial hwn yn ein helpu i ystyried y ffordd orau o gefnogi llesiant dysgwyr a staff, lleihau anghydraddoldebau addysgol a chyd-fynd yn well â phatrymau byw a gweithio modern. Bydd yr hyn a ddysgwn drwy'r treial hwn yn helpu i ehangu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch strwythur y diwrnod ysgol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol i nodi cyfleoedd i Lywodraeth Cymru gefnogi gwaith i gryfhau darpariaeth gofleidiol a thu allan i'r ysgol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i gynnal yr ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn Eithriadau yr ymrwymodd iddo yn 2019 er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae wedi'i chael ar ddarparwyr cofrestredig ac ar ddiogelu plant.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar y Gorchymyn Eithriadau yn ystod 2023, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth a gynhaliwyd eisoes. Mae hefyd yn bwysig i'r ymgynghoriad ystyried canfyddiadau'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae ac unrhyw gamau sydd wedi deillio ohono. Byddwn yn gweithio gydag unigolion yn y sector i sicrhau eu bod yn datblygu cynigion ac yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ffurfiol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[drwy e-bost]

15 Chwefror 2022

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2021 ynghylch defnydd Comisiwn y Senedd o'r acronym 'BAME'.

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref 2021, fe wnaeth swyddogion y Comisiwn ymgynghori â rhwydwaith cydraddoldeb Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH) y Comisiwn ynghylch yr hyn y mae'n ei ffafrio. Mynegodd aelodau'r rhwydwaith nifer o safbwyntiau, a'r hyn yr oedd y rhwydwaith yn ei ffafrio yn gyffredinol oedd cadw'r acronym BAME. O ganlyniad i'ch llythyr, mae'r rhwydwaith wedi gweithio gyda thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn i ailedrych ar hyn.

Fe wnaeth Comisiwn y Senedd drafod y defnydd o'r acronym 'BAME' yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr. Trafododd y Comisiwn bapur a oedd yn nodi rhywfaint o'r ddadl ehangach ynghylch defnyddio'r acronym gan gydnabod ei bod yn anodd hoelio hanesion a diwylliannau cymhleth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn un ymadrodd neu acronym.



Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r Comisiwn yn:

- Cydnabod cyd-destun fel sbardun allweddol i ddefnyddio terminoleg a dewis bod yn benodol wrth ddefnyddio terminoleg lle bynnag y mae hynny'n bosibl;
- Os nad yw'n bosibl bod yn benodol, defnyddio'r term(au) cyfunol 'lleiafrif ethnig' a 'chymuned lleiafrifoedd ethnig' yn lle'r acronym a'r term cyfunol B.A.M.E.; ac
- Adolygu'r defnydd o derminoleg yn rheolaidd a monitro trafodaethau mewnol ac allanol.



Yn ogystal, cytunwyd y dylai swyddogion y Comisiwn gynnig cwrdd â'r Aelodau hynny o'r Senedd sydd o gefndir ethnig lleiafrifol i drafod y mater ymhellach, ac y dylai'r wybodaeth yr oedd y



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Contact@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Comisiynwyr wedi'i hystyried fod yn sail i sesiwn friffio ar gyfer Aelodau, gan ddechrau gyda chadeiryddion pwyllgorau.

Cytunodd y Comisiynwyr bod y canllawiau yn y papur yn cael eu cyhoeddi'n fewnol er mwyn helpu swyddogion y Comisiwn i ddrafftio dogfennau.

Bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod yr eitem ddydd Iau 17 Chwefror 2022.

Fe wyddoch fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgysylltu â'r broses ymgynghori drwy'r Arolwg Ymgysylltu â'r Aelodau, sy'n fyw ar hyn o bryd. Mae nifer o'r Aelodau wedi dweud y byddent yn croesawu trafodaeth bellach gyda swyddogion y Comisiwn, ac mae hyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, pe byddai JAelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn credu y byddai sgwrs debyg yn ddefnyddiol, rhowch wybod i mi er mwyn i mi gael gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir



Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



2 March 2022

Dear John

I am writing on behalf of our coalition of organisations, activists, and race equality groups who have been working together on Part 4 of the 'Police Bill' – the criminalisation of trespass and its impact on Gypsy and Traveller communities across Wales. You can see our recent [briefing](#) to members of the Senedd and subsequent [Travellers Times](#) article

We are writing to you as Chair of the Local Government and Housing Committee to raise concerns about the lack of progress in delivering Gypsy and Traveller sites under the duty brought in by the Housing (Wales) Act in 2016. This correspondence is also copied to Jenny Rathbone as Chair of the Equality and Social Justice Committee as many of the issues are pertinent to the work of that committee too

There are some key issues which we feel the Committee should be aware of and might want to consider:

- a. Section 103 of the Housing Act Wales brought in a duty on local authorities to periodically **assess** the needs of Gypsy and Traveller communities in their areas for residential sites or pitches and to assess the need for transit provision for families to facilitate the nomadic way of life. The duty also requires local authorities to then **meet** that need through the provision of quality sites with decent facilities which provide permanent, or temporary pitches as assessed
The Welsh Government has also made a substantial capital Sites Grant Fund available since that time for local authorities to draw down costs to build new sites as well as re-furbishing old and run-down sites
The first of the new Gypsy and Traveller Assessments (GTAA) took place in 2016, the second assessments were due to be submitted to the Minister on 24 February 2022
- b. We know there has been very slow progress, in some local authority areas there has been none – leaving families (whose need was already well known) waiting on pieces of land with no access to quality facilities, and families overcrowded and doubling up on pitches on existing sites some of which are extremely run down. Many families have sought to meet their own need; bought land and developed their own small sites many of which are struggling to gain permanent planning permission and under constant threat of enforcement

The progress on making transit sites in Wales has been even less productive – there remain ZERO transit sites even proposed, never mind developed, across Wales in 6 years of the duty being in place; this means that travelling families continue to have to encamp on whatever land they can find, without access to facilities and at the mercy of local hostility and the ensuing pressure put on elected members and local authorities to ‘move people on’

- c. There has been a lack of accountability and monitoring at all levels. For many Local Authorities, no action has been taken over the six-year period and is now mostly spurred into action by the requirement to undertake their new assessment and meet the Welsh Government deadline. We have seen local councils and elected members actively campaigning against sites and even incidents of elected members accused of hate speech and discrimination being part of the decision-making process.

All in all, this has led many people from different Gypsy and Traveller communities across Wales losing faith in this process and indeed some refusing to engage in the most recent assessments because they see no evidence that the legal measures lead to any tangible benefit

- d. Of urgent concern is the impact of the UK Government’s Police, Crime, Sentencing and Courts Bill which is likely to proceed within the next few weeks to statute with Part 4 of the Bill in place. This will criminalise trespass with an ‘intent to reside’, changing this from a civil offence as it currently is, giving new powers to the Police to evict, seize vehicles (i.e., people’s homes), fine and potentially imprison anyone found guilty under the new legislation. The Bill also includes the ‘likelihood’ of distress or damage being caused amongst the potential triggers for invoking the powers and having no other place (including being homeless) will not be an exemption. The guidance for Police Forces which accompanies this Bill already published urges the Police ‘not to gold plate human rights’ when making their decisions.

The consequences of this on nomadic life and long held cultural traditions (going back to the 15th century here in Wales as elsewhere) are catastrophic; the increased criminalisation of a protected ethnic group already overrepresented in the criminal justice system; the increased incidence of homelessness and potential for children to go into local authority care (local authorities will have to provide and pay for all of this) and further marginalisation of families who already face huge prejudice and daily as well as structural racism.

The reason this is so relevant is that with the lack of pitches available and NO transit provision available in any part of Wales, families have no other option than to encamp on public and sometimes private land – this will leave families vulnerable to prosecution because local authorities have not met their own duties to provide sites – no wonder Gypsies and Travellers have no faith in the process

- e. In these coming weeks and months, it is crucial in our view that real progress, scrutiny, and challenge, are made so that the Housing Act duty and Wales’s commitment to support and uphold the rights of Gypsy and Traveller communities in Wales translate into tangible benefits and actions

